**Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-02-99(min)**

**COFNODION**

**Dyddiad:** Dydd Iau 7 Mehefin 1999

**Amser:** 9.00am - 12.30am

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presennol:**

**Aelodau**

| | |
|---|---|
| Kirsty Williams (Cadeirydd) | Brycheiniog a Maesyfed |
| Jane Hutt (Ysgrifennydd Cynulliad) | Bro Morgannwg |
| Brian Gibbons | Aberafan |
| Helen Mary Jones | Llanelli |
| Gwenda Thomas | Castell Nedd |
| Geraint Davies | Y Rhondda |
| David Melding | Canol De Cymru |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Lynne Neagle | Tor-faen |
| Nicholas Bourne | Canolbarth a Gorllewin Cymru |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Peter Gregory, Cyfarwyddwr | Cyfarwyddiaeth yr NHS, Cymru |
| Dr Ruth Hall | Prif Swyddog Meddygol, Cymru |
| Carys Evans | Adain Polisi |
| Helen Thomas, Cyfarwyddwraig | Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Graham Williams | Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol |

**Cyflwyniad gan:**

| | |
|---|---|
| Hugh Gardener | Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Tom Begg | Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol |
| | |
| Jane Westlake | Clerc |

| | |
|---|---|
| Laura Williams | Dirprwy Glerc |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau ac Amnewidiadau**

1.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau nac amnewidiadau.

**Eitem 2: Ymdrin â Phenodiadau Cyhoeddus**

2.1 Cafodd David Melding a Kirsty Williams eu henwebu i oruchwylio'r penodiadau cyhoeddus y mae'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gyfrifol amdanynt. Gallai'r llwyth gwaith i ddau o bobl fod yn sylweddol a dylid ei fonitro.

2.2 Gwahoddodd Ysgrifennydd y Cynulliad Kirsty Williams, David Melding a Dai Lloyd i gymryd rhan mewn arolwg o gydnabyddiaeth y penodiadau cyhoeddus hyn.

Casgliad a Gweithredu

2.3 Bydd Ysgrifennydd y Cynulliad yn darparu rhestru o benodiadau'r NHS yn sail ar gyfer trafodaeth lawn ar benodiadau cyhoeddus yn y cyfarfod fydd i'w gynnal ar 21 Gorffennaf.

**Eitem 3: Blaen-raglen Waith Ddiwygiedig**
**Papur: HSS-02-99(p.1)**

Cyflwyniad

3.1 Gofynnwyd i'r Pwyllgor gytuno ar y Flaen-raglen Waith am y 12 mis nesaf, a ddiwygiwyd yn unol â'r drafodaeth yn y cyfarfod blaenorol.

Pwyntiau Allweddol

3.2 Cyflwynodd Ysgrifennydd y Cynulliad bapur byr(HSS-02-99(p.6)) yn cynnig blaenoriaethau allweddol ar gyfer y Pwyllgor. Cytunwyd y dylai hwn fod yn rhan o'r Flaen-raglen Waith.

3.3 Roedd y Pwyllgor yn fodlon â'r Flaen-raglen Waith, yn amodol ar hyblygrwydd ar rai eitemau ar ddechrau'r Hydref.

3.4 Roedd y Pwyllgor yn awyddus i gael trafodaeth bellach ar bolisïau bwyd a maeth ar y cyd â’r mesur sydd gerbron y Senedd. Bydd datganiad misol Ysgrifennydd y Cynulliad i’r Pwyllgor yn cwmpasu eitemau o waith a datblygiadau parhaus.

3.5 Awgrymwyd cynnal sesiynau briffio rheolaidd i gynorthwyo a hysbysu’r pwyllgor bob bore Iau "rhydd" ar ôl gwyliau’r haf.

Casgliad a Gweithredu

3.6 Byddai’r flaen-raglen waith yn cael ei dosbarthu i’r pwyllgorau pwnc eraill i gael eu sylwadau.

**Eitem 4: Cyfrif Stoc yr NHS**

Cyflwyniad

4.1 Cyflwyniad llafar gan Carys Evans o’r Uned Bolisi, i egluro cylch gorchwyl Cyfrif Stoc cyfredol yr NHS yng Nghymru a nodi rhywfaint o gefndir y project. Caiff yr adroddiad terfynol ei gyflwyno i’r Pwyllgor yn y cyfarfod ar 21 Gorffennaf.

Pwyntiau Allweddol y Cyflwyniad

4.2 Ym mis Chwefror, comisiynodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru gyfrif stoc o faterion ariannol NHS Cymru. Sefydlwyd bwrdd project i gyflwyno adroddiad erbyn mis Gorffennaf. Bydd hwn yn astudiaeth ddadansoddiadol o’r broblem ddiffyg arian y mae NHS Cymru yn ei hwynebu ar hyn o bryd, gan ystyried sut y cododd hyn a chynnig datrysiadau. Y nod yw lleihau’r ansicrwydd a achoswyd gan y diffyg arian ac annog a hwyluso gwell cynllunio a chydweithio.

4.3 Dim ond materion ariannol a rheoli a gwmpaswyd gan y project ac nid oedd yn cwmpasu materion clinigol.

Pwyntiau Allweddol y Drafodaeth

4.4 Pwysleisiwyd pa mor bwysig oedd bod yr adroddiad ar gael erbyn y cyfarfod ar Orffennaf 21ain, er mwyn i’r Pwyllgor allu ystyried canfyddiadau’r cyfrif stoc ar y cyd â’u trafodaeth ar ddyraniadau’r gyllideb.

4.5 Caiff cyfran lai o’r GDP ei gwario ar ddarparu gofal iechyd ym Mhrydain na mewn gwledydd democrataidd eraill yn Ewrop, ond mae’r NHS yn dal i ddarparu gwasanaeth da iawn. Mae’n anodd

dweud yn bendant a oes digon o arian ar gael gan fod y broses o gyflwyno'r gwasanaeth yn amrywio cymaint. Bydd y cyfrif stoc yn darparu gwybodaeth fwy ystyrlon ac yn fan cychwyn ar gyfer trafod y mater hwn ymhellach.

4.6 Caiff ffactorau clinigol a phroffesiynol eu hystyried o fewn cyd-destun y wybodaeth ariannol a rheolaethol a ddarparwyd gan yr adroddiad.

4.7 Nodwyd bod y cyfrif stoc yn edrych ar y cyfnod Marchnad Fewnol a bod yr NHS bellach yn symud i mewn i drefn newydd. Er hynny dylai ddarparu'r sylfaen ar gyfer archwilio'r sefyllfa sydd wedi'i hetifeddu yn y dyfodol a'r problemau y dylid mynd i'r afael â hwy. Caiff gwybodaeth ar ddyrannu cyfrifiadau fformwlâu ei chynnwys yn yr adroddiad.

Casgliad a Gweithredu

4.8 Bydd adroddiad y cyfrif stoc ar gael i'r Pwyllgor ei ystyried ar 21 Gorffennaf.

**Eitem 5: Cyllidebau**
**Papur: HSS-02-99(p.2)**

Cyflwyniad

5.1 Estynnwyd gwahoddiad i'r Pwyllgor ystyried dyraniad cyllideb y Cynulliad a chyflwyno safbwyntiau ar flaenoriaethau gwariant dros y tair blynedd ariannol nesaf. Dylai'r rhain adlewyrchu blaenoriaethau'r pwyllgor.

Pwyntiau Allweddol

5.2 Mae cyllideb iechyd eleni yn hollol ymrwymedig gyda gwariannau ac ymrwymiadau rheolaidd anochel yn y blynyddoedd i ddod.

5.3 Bydd ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd yn derbyn £23m mewn benthyciadau eleni, sy'n golygu bod y Cynulliad yn rheoli diffyg arian mawr eleni heb unrhyw ddarpariaeth ychwanegol ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae'n rhaid cadw rheolaeth dros wariant mewn iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, tra'n mynd i'r afael â'r sialensau o barhau i ddatblygu cydweithio rhwng yr NHS a'r awdurdodau lleol.

5.4 Dylid ystyried clustnodi arian o fewn y gwasanaethau cymdeithasol o ddifrif – yn arbennig ar gyfer gofal ysbaid a Strategaeth y Gofalwr. Bydd angen cynnal trafodaeth aeddfed ac agored ar ad-drefnu gwasanaethau; arferion rhoi presgripsiwn; gwahanol ffyrdd o gyflawni arbedion; a meinhau gwasanaethau rheoli. Yn sgîl y symud at adnoddau cyfunol, dylid ystyried yr anghysonderau mewn

cyfundrefnau codi tâl.

5.5 Pwysleisiwyd bod yn rhaid ystyried effeithiolrwydd gwasanaethau yn ogystal â chost gwasanaethau.

Casgliad a Gweithredu

5.6 Bydd angen i'r Pwyllgor a'r Cynulliad yn gyffredinol, ddod o hyd i ffyrdd newydd a radical o ddyrannu cyllidebau a gwario arian. Bydd y berthynas sy'n datblygu gyda'r Cyngor Partneriaeth yn bwysig iawn er mwyn gosod a dyrannu cyllidebau.

5.7 Caiff dadansoddiad ariannol a risg ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar gyfer eu hystyriaeth nesaf o gyllidebau, ynghyd â'r manylion am sefyllfa ariannol 1998/99 er mwyn helpu i nodi'r tueddiadau.

**Eitem 6: Comisiwn Safonau Gofal Cymru**
**Papur HSS-02-99(p.3)**

Cyflwyniad

6.1 Gofynnwyd i'r Pwyllgor nodi'r papur ymgynghorol drafft a baratowyd gan Jane Hutt ar yr opsiynau ar gyfer y trefniadau rheoleiddiol newydd yng Nghymru. Mae pwysau i ryddhau'r papur cyn gynted â phosibl, er mwyn caniatáu amser i'r cyfnod ymgynghorol arferol cyn i'r ddeddfwriaeth sylfaenol gael ei drafftio ar gyfer sesiwn nesaf y Senedd. Bydd y Pwyllgor yn ystyried canlyniadau yr ymarfer ymgynghorol ar ddiwedd mis Medi neu ddechrau mis Hydref.

Pwyntiau Allweddol

6.2 Ariennir y Comisiwn newydd gan daliadau i'r sefydliadau y bydd yn eu harchwilio. Gofynnwyd am wybodaeth yn ymwneud ag amledd yr arolygiadau a fyddai'n cael eu cynnal o sefydliadau a chyfleusterau gofal ac o raddfa ac amrywiaeth y taliadau a fyddai'n cael eu codi. Dangoswyd pryder nad oedd y Pwyllgor wedi derbyn mwy o wybodaeth am y costau a'r incwm a ragwelwyd.

6.3 Ceisiwyd cael awgrym o nifer y bobl sy'n debygol o ymwneud â'r timau archwilio aml-broffesiwn, gyda sicrwydd y gellir fforddio'r nifer o bobl sydd eu hangen o fewn y gyllideb a ddyranwyd.

6.4 Cafodd y Pwyllgor sicrwydd gan Ysgrifennydd y Cynulliad y byddai ymgynghoriad ar wahân ar y strwythur ffioedd ar ôl i'r cynigion gael eu cadarnhau yn sgîl yr ymateb i'r ymgynghoriad.

6.5 Bydd yr ail gyfnod ymgynghorol yn ystyried perthynas y Comisiwn gyda chyrff rheoleiddiol gwasanaethau iechyd llym a meysydd rheoleiddio eraill y tu allan i'r cylch gorchwyl a gynigiwyd ar

gyfer y Comisiwn newydd.

6.5 Codwyd y mater o arolygu cartrefi preswyl a nyrsio cofrestredig deuol. Ystyriwyd bod angen i adolygu’r gofynion cofrestru er mwyn hwyluso’r lefel briodol o ofal a gwasanaeth i’r unigolion.

Casgliad a Gweithredu

6.6 Roedd y Pwyllgor yn poeni bod y papur ymgynghorol yn cael ei ryddhau heb unrhyw wybodaeth am y costau. Mynegwyd pryder hefyd bod yr amserlen Seneddol yn cyfyngu ei hystyriaeth o’r papur.

6.7 Cytunwyd i ryddhau’r papur, ar yr amod y byddai gwybodaeth ychwanegol am gostau ar sail y fframwaith gyfredol ar gael ar 21 Gorffennaf, ac y cynhelir ymgynghoriad ar wahân ar y gyfundrefn codi tâl.

**Eitem 7 Comisiynydd Plant Annibynnol i Gymru**
**Papur: HSS-02-99(p.4)**

Cyflwyniad

7.1 Gofynnwyd i’r Pwyllgor sefydlu rhaglen waith i ystyried rôl a swyddogaethau’r Comisiynydd Gwasanaethau Plant. Gofynnwyd hefyd i’r Aelodau ystyried sefydliadau y gellid eu gwahodd i roi tystiolaeth, i ategu ac i gynorthwyo’r broses hon.

Pwyntiau Allweddol

7.2 Cafwyd cefnogaeth yr holl bartïon i’r cynigion hyn. Cytunodd y Pwyllgor fod angen clywed barn amrywiaeth o sefydliadau ac hefyd plant a phobl ifanc, cyn iddynt allu gwneud argymhellion ar gyfer cylch gorchwyl y Comisiynydd Plant. Cytunwyd y dylai’r Comisiynydd gael y grym i weithredu pan fo angen.

Y Canlyniadau a’r Camau a Gymerir

7.3 Gofynnwyd am fanylion ychwanegol y swyddi eraill hyn. Caiff copïau o adroddiad Utting "People Like Us" eu dosbarthu i aelodau o’r Pwyllgor hefyd. Gofynnwyd hefyd am wybodaeth yngl í n â’r problemau y mae holl blant yng Nghymru yn eu hwynebu (nid y grwpiau amlwg yn unig fel plant mewn gofal).

7.4 Gwahoddir plant o Gymru i siarad gerbron y Pwyllgor ar 21ain Gorffennaf, yn unol â’r canllawiau a awgrymwyd yn Atodiad A o’r papur. Ar ben hyn gofynnir iddynt ddweud pam fod angen Comisiynydd,

a sut y dylai ef / hi gydberthyn i hapddalwyr eraill. Ceisir cael eu barn hefyd ar sut i ymestyn y broses ymgynghorol i gynnwys ysgolion, grwpiau ieuenctid a sefydliadau perthnasol eraill.

7.5 Bydd Ysgrifennydd y Cynulliad yn darparu mwy o wybodaeth fanwl i’r Pwyllgor am gomisiynwyr plant mewn gwledydd eraill (a amlinellir yn Atodiad B o’r papur), a’r problemau a wynebir gan blant yn gyffredinol, nid y rhai mewn gofal yn unig. Buasent hefyd yn hoffi gweld Adroddiad Utting "People Like Us".

**Eitem 8: Cyflwyniad gan y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Papur: HSS-02-99(p.5)**

Cyflwyniad

8.1 Rhoddodd Hugh Gardener (Y Cadeirydd) a Tom Begg o Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyniad i’r Pwyllgor ar y sialensau mawr sy’n wynebu adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru dros y tair blynedd nesaf.

Pwyntiau Allweddol Cyflwyno

8.2 Ceir ymrwymiad cryf i’r cynigion o fewn y Papur Gwyn "Adeiladu ar gyfer y Dyfodol", er mwyn datblygu gwasanaeth mwy proffesiynol ac wedi’i ganolbwyntio’n well, ar sail perfformiad. Mae hyn yn gosod agenda newydd a llawn her, y mae’r Diwydiant Gwasanaethau Cymdeithasol angen synnwyr clir o gyfeiriad ar ei chyfer er mwyn datblygu’r blaenoriaethau strategol. Mae’r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithredu o fewn hinsawdd o ddisgwyliadau cynyddol, ac wedi methu ag aros cyfuwch gofynion newidiol poblogaeth sy’n heneiddio, sydd wedi arwain at symudiad oddi wrth adfer ac atal. Mae’n bwysig cynnwys yr holl ddiwydiant o’r cychwyn er mwyn rheoli’r broses o newid sydd o’n blaenau yn effeithiol.

8.3 Tanseiliwyd delwedd a statws y gwasanaethau cymdeithasol yn y gorffennol, wrth i’r diffyg adnoddau olygu eu bod yn aml wedi gorfod ymddiheuro am y gwasanaethau sydd ar gael. Er gwaethaf sylw negatif gan y cyfryngau, gwelwyd llawer o arfer da a chyflawniadau. Mae ad-drefnu’r gwasanaeth hefyd wedi arwain at weithio gwell a chaiff yr ymagwedd holistig tuag at weithio ar y cyd gyda iechyd ei groesawu.

8.4 Mae dyfodol y diwydiant gwasanaethau cymdeithasol yn heriol a chyffrous ac mae’r disgwyliadau’n uchel. Bydd rôl y Cynulliad wrth helpu i gyflawni’r disgwyliadau hyn yn hollbwysig.

Pwyntiau Allweddol y Drafodaeth

8.5 Mae angen i amrywiaeth o wasanaethau fod ar gael, y gellir eu dilyn drwy ddatblygu Grwpiau

Iechyd Lleol. Byddai talu am wasanaethau yn hwyluso'r ddarpariaeth o well iechyd ac yn cynyddu'r dewis, ond byddai materion cymhwyso'n codi. Ceir disgwyliadau hefyd am gefnogaeth y wladwriaeth a fyddai'n anodd i'w reoli. Mae angen cael mwy o eglurder yn ymwneud â pha system y mae'r gymdeithas a'r Llywodraeth wirioneddol am ei chael.

8.6 Mae'r mater o adnoddau tryloyw fel petai'n awgrymu adnoddau wedi'u "Clustnodi". Mae sylfaen o ddisgwyliadau clir sy'n diffinio'r ddarpariaeth o wasanaeth, y mae'n rhaid cael arian ar ei gyfer. Nid yw'r asesiad gwariant safonol bob amser yn adlewyrchu anghenion gwariant a dylid gallu nodi'r lefel o ariannu a nodir gan y fformwla.

8.7 Tra bod cefnogaeth i gyllidebau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ??, mae partneriaethau effeithiol yn gofyn am ymdrech. Mae gofyn am gydweithredu rhwng pobl broffesiynol mewn iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn arbennig o ran asesu anghenion. Caiff hyn ei leihau gan wahanol anghenion rheoli. Un o'r prif rwystrau i weithio ar y cyd yw newid rheolaidd mewn strwythur.

8.8 Ymysg y blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol mae asesu a sefydlu blaenoriaethu ar lefel y gwasanaethau iechyd a chymdeithasol a chefnogi datblygiad pecynnau ??mwy dyfeisgar a dychmygus, sy'n ymwneud ag amrywiaeth eang o bobl broffesiynol y maes iechyd. Mae gwasanaethau plant ac ailsefydlu hyder y cyhoedd ynddynt hefyd yn hanfodol. Mae'n rhaid mynd i'r afael â phroblemau recriwtio a ??uchel o staff dylid rhoi statws uwch i swyddi gofal sydd ar hyn o bryd yn cael eu tanbrisio a'u talu'n wael. Dylid adfywio diddordeb mewn hyfforddiant ar gyfer gwaith cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Dylid rhoi lle i aelodau o'r staff gyflawni, a dylid mesur y canlyniad yn hytrach na'r broses.

**Eitem 9: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol, 23 Mehefin 1999**
**Papur: HSS-01-99(min)**

9.1 Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir.

9.2 Caiff mecanwaith ar gyfer adrodd yn ôl ar ddatblygiad a gweithredu yn dilyn cyfarfodydd blaenorol. Bydd hyn yn cynnwys datblygiad ar ddeddfwriaeth ac adborth cynradd gan y Senedd i gynrychiolaethau'r Cynulliad.

-

<u>Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am 9.00am</u>
<u>Yn Ystafell Bwyllgora 1, ar 15 Gorffennaf 1999</u>